

**Cofnodion**

**Dyddiad:** Dydd Mercher 15 Mai  
**Amser:** 2.00pm hyd 4.55pm  
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol

*Aelodau*

Glyn Davies, <i>Cadeirydd</i>	Canol a Gorllewin Cymru
Mick Bates	Sir Drefaldwyn
Cynog Dafis	Canol a Gorllewin Cymru
Ron Davies	Caerffili
Delyth Evans	Canol a Gorllewin Cymru
John Griffiths	Dwyrain Casnewydd
Carwyn Jones, <i>Gweinidog</i>	Pen-y-bont ar Ogwr
Peter Rocers	Gogledd Cymru
Carwyn Jones	Pen-y-bont ar Ogwr
Rhodri Glyn Thomas	Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

*Swyddogion*

Rory O'Sullivan	Yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd
Mike Dun	Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio
Stephen Nicholls	Yr Is-adran Rheoli PAC
Gwyn Jones	Yr Is-adran Iechyd Anifeiliaid
Huw Jones	Yr Is-adran Cefn Gwlad
Jasper Roberts	Yr Is-adran Polisi Gwledig
Emyr Roberts	Yr Is-adran Polisi Economaidd
Dafydd Jones	Ffermwr ac aelod o CFFI Cymru
Jonathan Rees	Ffermwr ac aelod o CFFI Cymru

*Ysgrifenyddiaeth*

Adrian Crompton	Clerc Pwyllgor
-----------------	----------------

Liz Wilkinson

Peter Jones

Dirprwy Glerc Pwyllgor

Cwnsler i Bwyllgorau'r Cynulliad

## **Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fudd**

1. Derbyniwyd ymddiheuriad gan Jocelyn Davies
2. Gwnaethpwyd y datganiadau isod gyda golwg ar fudd:
  - Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
  - Dywedodd Peter Rogers ei fod ef, ei wraig a'i fab yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
  - Dywedodd Mick Bates ei fod ef a'i wraig yn bartneriaid mewn busnes ffermio.
  - Cyfeiriodd y tri ohonynt at fanylion llawnach a oedd ar gael yn y Gofrestr o Fuddiannau'r Aelodau.

## **Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 08-02 (p1)**

### ***Adolygiad Canol Tymor o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)***

2.1 Nododd yr Aelodau y disgwyliid cynigion ffurfiol gan y Comisiwn ynghylch yr adolygiad canol tymor o'r PAC ym Mehefin 2002 ac y byddai'n anodd cynnal trafodaeth ystyrlon yn y Pwyllgor cyn hynny. Cytunodd y Cadeirydd i gynnwys ystyriaeth o gynigion y Comisiwn ynghylch yr adolygiad canol tymor o'r PAC ar agenda'r Pwyllgor yn y dyfodol, a hynny cyn gynted ag y byddai'n bosibl ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.

### ***Cael gwared ar stoc sydd wedi marw***

2.2 Mynegwyd pryder ynghylch effaith Rheoliad Isgynnyrch Anifeiliaid arfaethedig yr UE gan nad oedd unrhyw ardal yng Nghymru'n debygol o fod yn gymwys dan y rhan-ddirymiad ar sail pellter. Yr oedd gweithgor wedi ei sefydlu er mwyn ystyried dewisiadau eraill yn lle claddu ar fferm.

### ***Coedwigaeth***

2.3 Yr oedd y Pwyllgor yn falch o weld bod cymaint wedi manteisio ar gyllideb y Cynllun Cydcoed a bod yr arian wedi ei ymestyn ar gyfer y cyfnod hyd at Fawrth 2004. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys arfarniad rheolaidd o lwyddiant y cynlluniau coedwigaeth, gan gynnwys creu swyddi a marchnadoedd newydd a nodwyd, yn ei adroddiad i'r Pwyllgor.

### ***Marwolaeth Sydyn Coed Derw***

2.4 Yr oedd y Cynulliad wedi cymeradwyo is-ddeddfwriaeth er mwyn atal mewnforio rhai planhigion o'r rhannau hynny o'r Unol Daleithiau a oedd yn gysylltiedig â marwolaeth sydyn coed derw. Croesawodd y Pwyllgor y camau a oedd wedi eu cymryd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i beryglon y clefyd megis ysgrifennu at bob meithrinfa a rhoi gwybodaeth ar wefan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Nododd y Pwyllgor mai rhagofalon oedd y rhain gan na wyddid eto pa effaith y byddai clwy'r Unol Daleithiau'n ei gael ar goed derw Ewropeaidd.

### *Camddefnyddio cemegolion amaethyddol*

2.5 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys data cynhwysfawr yn ei adroddiad nesaf ynghylch pob achos o wenwyno anifeiliaid â chemegolion amaethyddol.

### *Materion eraill*

#### *Rheoliadau TSE*

2.6 Nododd y Pwyllgor ei fod yn awyddus iawn i ystyried y Rheoliadau TSE drafft ar gyfer Cymru. Yr oedd y gorchymyn cyfatebol wedi ei wneud yn Lloegr yn barod ond gwnaethpwyd deisyfiad yn ei erbyn yn Nh<sup>^</sup>y'r Arglwyddi, lle byddai trafodaeth yn cael ei chynnal yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Yn amodol ar hyn ni wnaethpwyd unrhyw benderfyniad eto ynghylch delio gyda'r gorchymyn yng Nghymru. Cytunodd y Cadeirydd y dylai agenda 29 Mai gynnwys ystyriaeth o'r Rheoliadau TSE drafft oni bai eu bod wedi eu gwneud dan Drefniadau Gweithredol ymlaen llaw.

#### *Marchnadoedd da byw*

2.7 Byddai cyfarwyddyd ynghylch gweithredu marchnadoedd defaid sy'n cael eu hail agor yn cael eu cyhoeddi yr wythnos ddilynol.

### **Camau gweithredu**

Agenda'r Pwyllgor i gynnwys ystyriaeth o gynigion y Comisiwn ynghylch adolygiad canol tymor o'r PAC cyn gynted ag y byddai'n bosibl ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi – **Ysgrifenyddiaeth, Gweinidog, Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.**

Arfarniad o lwyddiant cynlluniau coedwigaeth gan gynnwys creu swyddi a marchnadoedd newydd a nodwyd, i'w gynnwys yn rheolaidd yn adroddiad y Gweinidog – **Gweinidog, Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio.**

Adroddiad nesaf y Gweinidog i gynnwys data cynhwysfawr am bob achos o wenwyno anifeiliaid â chemegolion amaethyddol – **Gweinidog, Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio.**

Agenda'r Pwyllgor ar 29 Mai i gynnwys ystyriaeth o'r Rheoliadau TSE drafft oni bai eu bod wedi eu gwneud dan Drefniadau Gweithredol ymlaen llaw – **Ysgrifenyddiaeth, Gweinidog, Is-adran Iechyd Anifeiliaid.**

### **Eitem 3: Peirianwaith ar gyfer Apeliadau Annibynnol: ARD 08-02(p2)**

3.1 Croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod y peirianwaith ar gyfer apeliadau annibynnol wedi cael ei weithredu, a'i fod yn gweithio'n llawn ers Hydref 2001.

3.2 Gofynnwyd am eglurhad ynghylch y ffordd briodol o gyflwyno ffurflenni IACS a chydabod ceisiadau. Byddai mwy o welliannau i'r broses o wneud cais yn helpu i leihau nifer yr apeliadau.

3.3 Cytunodd y Gweinidog i gynnwys manylion am 'gamgymeriad amlwg' a dadansoddiad o'r apeliadau a dderbynnid gan y cynllun yn ei adroddiad ysgrifenedig nesaf.

### **Cam gweithredu**

Adroddiad nesaf y Gweinidog i gynnwys manylion am 'gamgymeriad amlwg' a dadansoddiad o'r apeliadau a dderbyniwyd gan y cynllun – **Gweinidog, Is-Adran Rheoli PAC.**

### **Eitem 4: Arallgyfeirio'r economi wledig: ARD 08-02(p3)**

4.1 Yr oedd yr Aelodau'n croesawu'r amrediad eang o gamau er mwyn cefnogi'r economi wledig a nodwyd yn ymateb y Cabinet i argymhellion y Pwyllgor. Fodd bynnag, mynegwyd pryder ynghylch nifer o feysydd:

- diffyg arweiniad clir, strategol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu gwledig;
- y graddau yr oedd polisi'n seiliedig ar dystiolaeth bendant a data ystadegol manwl;
- annigonolrwydd mesuryddion perfformiad penodol ar gyfer polisiau ac ardaloedd gwledig;
- y graddau yr oedd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru'n canolbwyntio ar yr economi wledig ehangach yn hytrach na'r sector amaethyddol yn unig;
- y graddau y gwnaethpwyd arfarniad effeithiol o effaith gyffredinol cynlluniau datblygu gwledig;
- y graddau yr oedd blaenoriaeth Awdurdod Datblygu Cymru i faterion gwledig wedi ei haddasu yn dilyn argymhellion y Pwyllgor;
- yr angen am ddiffiniad clir y gellid ei ddefnyddio i ddangos pa mor wledig yw ardaloedd;

- yr angen am gydweithio agosach rhwng adrannau amaethyddiaeth ac addysg Llywodraeth Cynulliad Cymru a rôl ehangach ysgolion wrth ddatblygu cymunedau gwledig.

#### 4.2 Mewn ymateb i hyn, codwyd y pwyntiau isod:

- Ers cynhyrchu Datganiad y Bartneriaeth Wledig yr oedd y Bartneriaeth wedi nodi ei bod yn dymuno canolbwyntio ar faterion penodol, fel y prosiect Cymunedau gyda Chydbwysedd Oedran, yn hytrach na llunio gweledigaeth gyffredinol ar gyfer datblygu gwledig.
- Byddai sefydlu'r Panel Ymgynghorol Ymchwil Economaidd yn helpu i wella ansawdd y data economaidd sydd ar gael. Byddai'r panel yn cyfarfod am y tro cyntaf cyn bo hir a byddai wedyn yn penderfynu ar ei raglen ymchwil.
- Yr oedd gwaith yn cael ei wneud gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegau er mwyn diffinio gwledigrwydd, ond ni ellid rhoi amserlen bendant ar gyfer y gwaith.
- Nid oedd bob amser yn bosibl nac yn ystyrlon nodi elfen wledig rhaglenni cenedlaethol ar wahân.
- Yr oedd llythyr cylch gorchwyl diweddaraf yr Awdurdod Datblygu'n pwysleisio mwy nag o'r blaen pa mor bwysig oedd cyfrifoldeb datblygu gwledig yr Awdurdod Datblygu ac yr oedd y Gweinidog Materion Gwledig yn cyfarfod Cadeirydd yr Awdurdod Datblygu'n rheolaidd erbyn hyn.

4.3 Cytunodd y Cadeirydd y byddai agenda'r Pwyllgor ymhen chwe mis yn cynnwys ystyriaeth arall o'r modd y gweithredir yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar *Arallgyfeirio'r economi wledig*.

### Cam gweithredu

Agenda'r Pwyllgor ymhen chwe mis, i gynnwys ystyriaeth arall o'r modd y gweithredir yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, *Arallgyfeirio'r economi wledig – Ysgrifenyddiaeth, Gweinidog, Is-adran Polisi Gwledig*.

### Eitem 5: Adolygiad y Pwyllgor o ffermio organig

5.1 Amlinellodd Dafydd Jones gefndir ei fusnes ffermio ac eglurodd ei fod wrthi'n troi'n organig. Cyfeiriodd at ei resymau dros droi'n organig, a oedd yn cynnwys tystiolaeth o farchnad a oedd ar gynnydd; dylanwad y cyfryngau ar bryniant defnyddwyr a thueddiadau dilynol yn y farchnad a'r grantiau a'r cymhelliant ariannol a oedd ar gael.

5.2 Eglurodd Jonathan Rees ei fod wedi bod yn ffermio'n organig er dwy flynedd a'i fod ar hyn o bryd

yn sefydlu uned brosesu. Awgrymodd fod angen ymrwymo adnoddau ychwanegol ar gyfer marchnata'r sector organig, drwy lefi ar gyfer cynhyrchwyr o bosibl; annog ffermwyr bach i droi'n organig drwy ymestyn y cyfnod y mae cefnogaeth ariannol ar gael ar eu cyfer; labelu cynnyrch wedi ei fewnforio; a gwneud y grantiau sydd ar gael yn fwy hyblyg.

### 5.3 Codwyd y pwyntiau isod yn ystod y drafodaeth:

- byddai cymorth â phrosesu ar fferm a datblygu cysylltiadau gyda gwestai a thai bwyta lleol yn cryfhau'r broses o gyflenwi cynnyrch organig ar lefel leol; yr oedd y cyngor a'r cymorth a oedd ar gael yn cwrdd ag anghenion y ffermwyr yn gyffredinol, ond gellid elwa mwy drwy gael gwell gwybodaeth am farchnata;
- byddai cydweithio rhwng cynhyrchwyr o fewn y gadwyn gyflenwi yn helpu i sicrhau prisiau addas gan adwerthwyr a sicrhau proffidioldeb. Teimlid bod y dulliau gweithredu yr oedd yr archfarchnadoedd wedi eu mabwysiadu, lle gosodid gofynion clir gan gynnwys targedau cynhyrchu, o fudd i ffermwyr;
- yr oedd yn bwysig bod ffermwyr yn dod yn hunangynhaliol a'u bod yn gallu dal i wneud elw heb fynd i ddibynnu ar y trefniadau cymhorthdal;
- effaith bosibl ffermio organig ar yr amgylchedd;
- yr oedd angen y premiwm ar gynnyrch organig er mwyn cwrdd â'r costau ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â hadau a gwrtaith;
- yr oedd cynhyrchu bwyd organig yn galw am fwy o waith cynllunio ar ran y ffermwr er mwyn sicrhau bod y tir a'r stoc yn rhoi cymaint o gynnyrch ag y gellid ei gael. Dangosai profiad a gwaith ymchwil cyfredol fod gan y system, pan fo'n cael ei rheoli'n dda, hefyd fanteision gyda golwg ar iechyd anifeiliaid a llai o ddibyniaeth ar frechlynnau a meddyginiaethau.

### **Eitem 6: Cofnodion y cyfarfod blaenorol: ARD 07-02(min)**

6.1 Yn amodol ar newid bach, cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion cyfarfod 1 Mai.

### **Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor - Mai 2002**